O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 153 (Cy. 33)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Blaenau Ffestiniog a Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Gwahardd Aros Dros Dro) 2025

Gwnaed	*12 Chwefror 2025*
Yn dod i rym	*13 Chwefror 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd digwyddiad ffilmio a gynhelir ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Blaenau Ffestiniog a Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Gwahardd Aros Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 13 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod y digwyddiad eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn y gilfan neu ar ochrau darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

5. Mae darpariaethau erthygl 5 o Orchymyn Cefnffordd yr A470 (Heol yr Eglwys, Stryd Fawr a Ffordd Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2018(**1**) wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn drwy gydol cyfnod y digwyddiad.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 7 niwrnod ar y mwyaf.

(**1**) O.S. 2018/595 (Cy. 112).

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Chwefror 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r gilfan gyferbyn ag ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Heol yr Eglwys a Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog sy'n ymestyn o bwynt 39 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd o'r enw Dolgarregddu hyd at bwynt 21 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o'r ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhifau 34 a 35 Stryd Fawr hyd at bwynt 20 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Foty, Blaenau Ffestiniog.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Penybryn, Llan Ffestiniog, sy'n ymestyn o'r ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhifau 18 a 19 Penybryn hyd at y ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhifau 8 a 10 Penybryn.